

Cofion

- Estynnwn ein cofion heddiw at Bob Williams a Doreen Evans (Tanyfron) sy'n parhau yn Ysbyty Glan Clwyd, a Barbara Williams (Henllan) yn yr Inffirmari. Hyderwn y caiff y tri ohonynt adnabod holl dangnefedd Duw yn gwarchod drostynt. Cofiwn hefyd am Ifor Lloyd (Llanfair) sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar, ac am eraill o'r Fro sydd heb fod yn dda ac yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd. Gweddiwn y byddant hwythau'n adnabod yr un nodedd, yr un nerth, yr un tangnefedd.
- Llongyfarchiadau i Trefor Wynne (Henllan) ar ddathlu pen-blwydd arbennig!
- Dymunwn yn dda i Aron Treharne (DAWN Cymru) fydd yn cael ei ordeinio a'i sefydlu'n weinidog ar Eglwys Penuel, Caerfyrddin, dydd Sadwrn, Hydref 8fed a phob bendith ar ei weinidogaeth.
- Yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Enid Jones (Plas Ogwen); Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys); Mr Gwilym Foulkes (Dolwen); Mrs Mair Roberts a Miss Hannah Alice Jones (Yr Hen Ficerdy); Mr Aneurin Evans (Park Lodge); Mrs Myra Hughes a Mrs Menna Streeter (Maes Elwy); Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mr Elfed Davies (Plas Eleri); a Mr Harold Lloyd (Hafan Gwydir), gan ddiolch am y gofal y maent yn ei dderbyn yno.

Apêl y Cartref Cariadus

Cyflwynwyd sic o dros £28,000 i'r Cartref Cariadus yng Ngholeg y Bala ddydd Sadwrn diwethaf. Diolch o galon am bob rhodd tuag at y cartref arbennig hwn i blant amddifad 'Hmangaihna In' ym Mizoram, yr India.

I ddod

- **Gŵyl Ddiolchgarwch Capel Henllan** dydd Llun, Hydref 10fed. Cyfarfod am 2.00 gyda phlant Ysgol Henllan yn cymryd y rhan arweiniol a Dr Owain Edwards, Coleg y Bala yn rhoi anerchiad. Y Parch Huw Dylan Jones fydd yn arwain yr oedfa am 7.00.
- **Oedfa Ddiolchgarwch yng Nghapel Soar**, Llanfair Talhaiarn nos Fercher, Hydref 12fed am 7:00 gyda'r Parch William Davies yn pregethu.
- **Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Pant Pastynog** yng Nghapel Saron nos Lun, Hydref 17eg am 6:00.
- **Paned a sgwrs** yn y caffi yn Henllan dydd Iau, Hydref 20fed am 3.00.
- **Gwasanaeth Diolchgarwch Capel Groes** nos Iau, Hydref 20fed am 7.00 o dan arweiniad Dr Rhodri Glyn.
- **Gŵyl Ddiolchgarwch yng Nghefn Meiriadog** dydd Llun, Hydref 24ain. Cynhelir gwasanaeth y plant am 3.30 a bydd oedfa am 7.00 gyda'r Parch Huw John Hughes yn pregethu.
- **Gwasanaethau Diolchgarwch Llansannan:** Nos Fercher, Hydref 26ain - Oedfa yng Nghapel Bethania am 7.30 gyda'r Parch Tom Evans Williams yn pregethu. Dydd Sul, Hydref 30ain - Gwasanaeth y Plant yng Nghapel Coffa Henry Rees am 10.00 ac oedfa yng Nghapel Bethania am 5.30 gyda'r Parch John Lewis Jones yn pregethu.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 2^{il} Hydref 2011

Cofiwch am yr oedfa arbennig heno i sefydlu Aneurin yn weinidog a chomisiynu Rhodri yn Gynorthwy-ydd Gweinidogaethol ym Mro Aled.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i Sul y Sefydlu a'r Comisiynu! Diolchwn i'r Arglwydd am ein cynnal ac am ei rodd anhraethol i ni yn Efengyl ei Fab. Diolch i chwithau am eich holl ymddiriedaeth ac am eich parodrwydd llawen i gydweithio o blaid yr Efengyl yn ein cymunedau. Diolchaf yn arbennig heddiw i'r rhai sydd wedi gweddiu a'r rhai sydd wedi bod yn brysur yn paratoi croeso'r Fro i'r rhai a fydd yn bresennol heno.

Nid pawb fydd yn medru bod yn bresennol ac fe ymddiheurwn ein bod wedi gorfod trefnu ar draws ambell i ddigwyddiad arall. Gwyddom y bydd eich gweddiâu gyda ni ac fe fyddwn ninnau hefyd yn cofio am y rhai hynny, oherwydd amrywiol amgylchiadau a chystuddiau, na fedrant fod yn yr Oedfa.

Carwn hefyd eich annog, fel y gwnaeth Meirion ar hyd y blynyddoedd, i ystyried galwad yr Iesu arnoch chwithau. Rwy'n ymwybodol nad comisiwn i un neu ddau yw'r comisiwn mawr "Ewch a gwnewch ddisgyblion..." Mae ufudd-dod i'r gorchymyn hwn yr un mor bwysig ag unrhyw un arall o orchmynion Duw a thrwy ufudd-dod y mae'r Eglwys yn cael ei hadeiladu o oes i oes. Mewn rhyw ystyr felly, comisiynu'r Ofalaeth wnawn ni heno – galwad ar bob aelod a theulu i wneud eu rhan a chydweithio hefo Mair a Rhodri a minnau i wneud disgyblion i Iesu.

Llawenydd hefyd yw gweld Elinor yn symud ymlaen yn ei thaith hithau i'r weinidogaeth. Cefais y fraint o arolygu ei Arholiad i Fwrdd yr Ymgeiswyr y dydd o'r blaen ac fe fydd yn cael ei holi gerbron yr eglwys yn Llansannan yr wythnos nesa. Dymunwn fendith Duw arni a'i nerth i'w wasanaethu ymhellach. Nid pawb a fydd yn cael eu galw i'r weinidogaeth fel hyn ond y mae'n bwysig i bawb ystyried pa gyfraniad y medrant hwy ei wneud er mwyn Duw a pha ddawn a gaiff ei gysegru ganddo i hybu ei dystiolaeth yn ein plith.

Ar ran y Tîm felly, diolch o galon a phob bendith i chwi wrth inni ddathlu daioni a ffyddlondeb yr Arglwydd hefo'n gilydd heddiw.

*'Cofiwn am gomisiwn Iesu
cyn ei fyned at y Tad:
"Ewch, pregethwch yr Efengyl,
gwnewch ddisgyblion ymhob gwlad."
Deil yr Iesu eto i alw
yn ein dyddiau ninnau nawr;
ef sy'n codi ac yn anfon
gweithwyr i'w gynhaeaf mawr.'*

"Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi. Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd amser." (Math. 28:19-20)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Gwasanaeth Arbennig** yn Llansannan am 6:00 i sefydlu Aneurin yn weinidog a chomisiynu Rhodri Glyn yn Gynorthwy-ydd Gweinidogaethol ym Mro Aled. Bydd lluniaeth ysgafn i bawb i ddilyn.
- Llun • **Pwyllgor Gŵyl yr Ysgol Sul** yn Ffestri Capel Henllan am 7:30. *(Bydd angen un cynrychiolydd o bob eglwys, os gwelwch yn dda.)*
- **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Adnabod Addoli** yn Ffestri Llansannan am 8.00.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 (SYLWCH AR Y NEWID AMSER) gyda'r Ysgol Sul yn dilyn am 11.00. Cyfarfod Gweddi fydd hefyd yng Nghefn Meiriadog a hynny am 10.30 gyda'r Ysgol Sul am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Ar ddechrau oedfa'r bore am 10.00, bydd cynrychiolwyr o'r Henaduriaeth yn ymddiddan ag Elinor Owen am ei chymwysterau i waith y weinidogaeth, ac yna'n rhoi cyfle i'r eglwys, trwy bleidlais ddirgel, i ddatgan barn am yr ymgeisydd. Yna, bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd pryd y bydd Dona a Kevin yn cyflwyno Aron Sion i gael ei fedyddio.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 2.00.
- Iau Oedfa Ddiolchgarwch yng Nghapel Saron am 7:00 gyda'r Parch Tom Williams, Henllan yn pregethu.
- Sadwrn Bore Coffi yn Ffestri Capel Saron am 10.00 wedi ei drefnu gan yr Ysgol Sul.
- Sul nesaf Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant a'r Ieuentid yng Nghapel Saron am 10:00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00 a bydd y Parch Bernant Hughes yn arwain oedfa gymun yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Dewi Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Tystio i effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau